GIG CYMRU NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithio i Wella

Lleisio pryder am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru

Fersiwn print bras

Nod Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yw darparu gofal a thriniaeth o'r safon orau un. Ond weithiau, efallai na fydd pethau'n mynd cystal â'r disgwyl.

Pan fydd hynny'n digwydd, dylech fynegi eich pryderon wrth y staff sy'n gofalu amdanoch neu sy'n eich trin, er mwyn iddynt fedru edrych ar yr hyn aeth o'i le a cheisio'i wneud yn well.

Mae hyn yn digwydd drwy broses 'Gweithio i Wella' Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru.

Â phwy y dylwn i siarad am fy mhryder?

Y lle gorau i ddechrau yw siarad â'r staff fu'n gofalu amdanoch neu'n eich trin, cyn gynted â phosib. Fe allan nhw geisio datrys eich pryder ar unwaith.

Os nad yw hyn o gymorth, neu os nad ydych chi'n awyddus i siarad â'r staff, gallwch gysylltu ag aelod o dîm pryderon yr ymddiriedolaeth neu'r bwrdd iechyd.

I leisio pryder am wasanaethau gawsoch chi gan eich Meddyg Teulu, eich Deintydd, eich Fferyllydd neu'ch Optegydd, fel rheol dylech chi ofyn i'r practis ystyried y mater ar eich rhan. Os yw'n well gennych chi, fodd bynnag, gallwch ofyn i'ch bwrdd iechyd lleol wneud hynny.

Mae gan bob ymddiriedolaeth neu fwrdd iechyd dîm pryderon. Gellir dod o hyd i'w manylion ar wefan Iechyd yng Nghymru www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cysylltuni/pryderoncysylltiadau neu gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647

Beth fydd y tîm pryderon neu'r practis yn ei wneud?

Byddan nhw'n:

» Gwrando ar eich pryderon i geisio'u datrys cyn gynted â phosib.

» Ymchwilio i'ch pryderon a siarad â'r staff oedd yn rhoi gofal neu driniaeth ichi.

» Eich rhoi mewn cysylltiad â'r person cywir i'ch helpu.

» Rhoi gwybod ichi am eu canfyddiadau a'r hyn sy'n mynd i gael ei wneud am y peth.

Rhowch wybod i'r tîm pryderon neu'r practis os oes arnoch angen wybodaeth neu ohebiaeth mewn fformat arall, fel print mawr, Braille neu sain.

Pa mor fuan y dylwn i ddweud wrth rywun am fy mhryder?

Mae'n well sôn wrth rywun am eich pryder cyn gynted ag y bo modd, ond fe gewch hyd at 12 mis i wneud hynny. Os oes rhagor o amser wedi mynd heibio ond bod rhesymau da dros yr oedi, mae'n bosibl y bydd y tîm neu'r practis yn dal i allu delio â'ch pryder.

Pwy sy'n cael lleisio pryder?

Gallwch leisio'r pryder eich hun. Os yw'n well gennych, gall gofalwr, cyfaill neu berthynas eich cynrychioli, ond bydd gofyn ichi roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer hyn.

Oes modd imi gael cymorth i leisio pryder?

Oes. Mae gwasanaeth eiriolaeth annibynnol y Cyngor Iechyd Cymuned yn darparu cymorth cyfrinachol yn rhad ac am ddim.

Gallwch ddod o hyd i'ch Cyngor Iechyd Cymuned lleol drwy gysylltu â:
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
02920 235558
www.communityhealthcouncils.org.uk
enquiries@waleschc.org.uk

Beth fydd yn digwydd ar ôl ichi leisio pryder?

Bydd y tîm pryderon neu'r practis yn:

» Cysylltu â chi, ac o bosib yn cynnig cyfarfod i drafod eich pryderon.

» Ymchwilio i'ch pryderon ac yn siarad â'r staff oedd yn rhoi gofal neu driniaeth ichi.

» Ceisio ymateb ichi o fewn 30 diwrnod gwaith o dderbyn eich pryder. Os nad oes modd iddynt ymateb o fewn y cyfnod

hwnnw, byddant yn egluro pam, ac yn eich hysbysu pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

Efallai y bydd angen mwy o amser i ymchwilio i rai pryderon.

Beth os ydych chi'n anfodlon o hyd?

Os nad ydych chi'n hapus ag ymateb y bwrdd iechyd, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ffôn: 0300 790 0203
www.ombwdsmon-cymru.org.uk
Cyfeiriad: 1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30166 ISBN argraffu 978-1-4734-9148-9
ISBN digidol 978-1-4734-9147-2